# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 5

RHOI TWLL MEWN RHAN BERSONOL O'R CORFF

*Gorfodi*

### 99 Pwerau mynediad

(1) Caiff cwnstabl neu swyddog awdurdodedig fynd i mewn i fangre ar unrhyw adeg resymol—

(a) os oes gan y cwnstabl neu'r swyddog awdurdodedig seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 95 wedi ei chyflawni, a

(b) os yw'r cwnstabl neu'r swyddog awdurdodedig yn ystyried ei bod yn angenrheidiol mynd i mewn i'r fangre at ddiben canfod a yw trosedd o'r fath wedi ei chyflawni.

(2) Ond nid yw hyn yn gymwys mewn perthynas â mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd.

(3) Ni chaiff person y cyfeirir ato yn is-adran (1) fynd i mewn i fangre drwy rym o dan yr adran hon.

(4) Rhaid i swyddog awdurdodedig, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos tystiolaeth o'r awdurdodiad y cyfeirir ato yn adran 98 cyn mynd i mewn i fangre o dan yr adran hon.

(5) Yn yr adran hon ac yn adrannau 100 i 103, mae "mangre" yn cynnwys unrhyw fan ac unrhyw gerbyd (ac eithrio awyren neu hofrenfad), stondin neu strwythur symudol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 99 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 99 mewn grym ar 1.2.2018 gan O.S. 2018/1, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 99 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2